

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 3) ar gyfer Bil Banc Seilwaith y DU

Ionawr 2023

Casgliad cyffredinol

Yn ein hadroddiad cyntaf ar y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Banc Seilwaith y DU, fe wnaethom ni fynegi pryder nad oedd y Bil yn adlewyrchu cymhwysedd datganoledig. Daethom i'r casgliad nad oeddem mewn sefyllfa i ddod i farn ynghylch cydsyniad nes bod canlyniad y trafodaethau rhynglywodraethol a oedd yn mynd rhagddynt ynghylch y gwelliannau'n hysbys.

Ar ôl ystyried y gwelliannau i'r Bil, nid ydynt yn mynd i'r afael â'n pryder yn ddigonol. O ystyried hyn, nid ydym mewn sefyllfa i argymhell bod y Senedd yn cydsynio i'r Bil.

1. Cyflwyniad

1. Dyma ail adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ('y Pwyllgor') ar Fil Banc Seilwaith y DU ('y Bil') a'r Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol cysylltiedig. Ceir rhagor o wybodaeth am y Bil a Memoranda cynharach yn ein hadroddiad cyntaf, sef [Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Banc Seilwaith y DU](#), a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2022.

2. Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein barn ar welliannau perthnasol a wnaed yn y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin a'n casgliad cyffredinol ynghylch cydsyniad deddfwriaethol.



Y Memorandwm Atodol (Rhif 3)

3. Ar 30 Tachwedd 2022, gosododd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 3) ar gyfer y Bil ('Memorandwm Rhif 3') gerbron y Senedd.
4. Ar 6 Rhagfyr 2022, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes Femorandwm Rhif 3 at y Pwyllgor hwn, y Pwyllgor Cyllid, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i'w drafod, gydag 16 Ionawr 2023 fel y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad.
5. Mae dadl ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'i threfnu ar gyfer 17 Ionawr 2023.

Ein dull ni

6. O ystyried yr amser cyfyngedig a oedd ar gael i ni drafod a chyflwyno adroddiad ar Femorandwm Rhif 3, nid oeddem mewn sefyllfa i gymryd tystiolaeth gan y Gweinidog.
7. Fe wnaethom ni drafod Memorandwm Rhif 3 yn ein cyfarfod ar 12 Ionawr 2023.

2. Gwelliannau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

8. Mae paragraffau 19 i 44 o Femorandwm Rhif 3 yn rhoi manylion y gwelliannau i'r Bil y cytunwyd arnynt yn y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin y mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer.
9. Mae'r paragraffau a ganlyn yn rhoi esboniad o'r gwelliannau sydd o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor.

Cymal 2 – amcanion a gweithgareddau

10. Mae cymal 2 yn nodi amcanion a gweithgareddau'r Banc. Yr amcanion yw helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd a chefnogi twf economaidd rhanbarthol a lleol.
11. Mae gwelliannau i gymal 2 yn cynnwys:

- newid y diffiniad o “awdurdod cyhoeddus perthnasol” i egluro y gall y Banc ddarparu benthyciadau i awdurdodau cyhoeddus¹ heblaw awdurdodau lleol ac adrannau Gogledd Iwerddon;
- fe wnaeth Tŷ'r Arglwyddi ddiwygio'r diffiniad o seilwaith drwy ychwanegu cyfeiriad at “strwythurau sy'n sail i'r economi gylchol, ac atebion sy'n seiliedig ar natur”. Mae'r cyfeiriad hwn wedi'i ddileu drwy welliant; a
- rhaid i'r Trysorlys ymgynghori â'r awdurdod datganoledig perthnasol cyn gwneud darpariaeth mewn rheoliadau i newid 'gweithgareddau'r Banc' neu ystyr 'seilwaith' lle byddai'r ddarpariaeth honno o fewn cymhwysedd deddfwriaethol yr awdurdod datganoledig dan sylw.

Cymal 3 – blaenoriaethau a chynlluniau strategol

12. Mae cymal 3 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Trysorlys baratoi datganiad o flaenoriaethau strategol ar gyfer y Banc o fewn chwe mis ar ôl i'r Ddeddf ddod i rym.

13. Mae cymal 3 wedi'i ddiwygio i'w gwneud yn ofynnol i'r Trysorlys ymgynghori â'r awdurdod datganoledig perthnasol cyn cynnwys mewn datganiad o flaenoriaethau strategol ar gyfer y Banc unrhyw ddarpariaeth y mae'r Trysorlys yn bwriadu ei chynnwys yn y datganiad ac sy'n ymwneud â phwnc o fewn cymhwysedd deddfwriaethol yr awdurdod dan sylw.

Cymal 7 – llywodraethu corfforaethol

14. Mae cymal 7 yn ymdrin â materion llywodraethu corfforaethol mewn perthynas â phenodi cyfarwyddwyr ar gyfer y Banc a'u cyfnod yn y rôl.

15. Mae cymal 7 wedi'i ddiwygio i'w gwneud yn ofynnol i Fwrdd y Banc gynnwys un neu fwy o gyfarwyddwyr â chyfrifoldeb am sicrhau bod y Bwrdd yn ystyried buddiannau'r awdurdodau cenedlaethol priodol² wrth wneud penderfyniadau.

3. Safbwynt Llywodraeth Cymru ar gydsyniad

16. Mewn Memoranda blaenorol ar gyfer y Bil, adroddodd Llywodraeth Cymru ei safbwynt terfynol ynghylch a fyddai argymhell cydsyniad yn amodol ar ganlyniad trafodaethau parhaus

¹ Mae ystyr “awdurdod cyhoeddus” wedi'i ychwanegu drwy welliant. Mae'n cynnwys “unrhyw berson arall sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus”.

² Mae ystyr “awdurdod cyhoeddus priodol” wedi'i ychwanegu drwy welliant. Mae'n cynnwys “Gweinidogion Cymru”.

gyda Llywodraeth y DU ynghylch cyflwyno gwelliannau i fynd i'r afael â 'phryderon cyfansoddiadol'.

17. Ym Memorandwm Rhif 3, mae Llywodraeth Cymru yn esbonio bod y gwelliannau y cytunwyd arnynt yn y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin yn "darparu rôl statudol i Weinidogion Cymru neu'n rhoi ystyriaeth i fuddiannau Cymru yn y tri phrif faes lle mae gan Lywodraeth y DU bwerau penodol". Mae'n ychwanegu:

"Er nad yw'r canlyniad yn gwireddu... holl amcanion [Llywodraeth Cymru]... , [mae] gwelliannau Llywodraeth y DU yn gyfaddawd rhesymol a fydd yn galluogi i fuddiannau Cymru a Llywodraeth Cymru gael eu hadlewyrchu drwy waith y Banc".

18. Daw Llywodraeth Cymru i'r casgliad y "gwnaed gwelliannau i'r Bil er mwyn adlewyrchu buddiannau Cymru a Llywodraeth Cymru yn well ac i barchu'r setliad datganoli yn well". O'r herwydd, mae'n argymhell bod y Senedd yn rhoi cydsyniad i'r Bil.

4. Trafodaeth y Pwyllgor

Amserlen ar gyfer craffu

Rydym eisoes wedi datgan ein barn yn glir am yr angen i sicrhau bod digon o amser ar gael i bwyllgorau graffu ac adrodd ar Femoranda – safbwynt sy'n cael ei ategu gan bwyllgorau eraill y Senedd. Roedd gennym lai na thair wythnos waith i drafod Memorandwm Rhif 3 ac adrodd arno, a oedd ymhell o fod yn foddhaol. Mae amseru'r ddadl ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol (a drefnwyd y diwrnod ar ôl y dyddiad adrodd) yn golygu y bydd amser cyfyngedig i Aelodau'r Senedd fyfyrion ar ganfyddiadau ein hadroddiad (a chanfyddiadau pwyllgorau eraill y Senedd) cyn y bydd gofyn iddynt wneud penderfyniad ar gydsyniad. Rydym yn pryderu bod hyn yn tanseilio'r broses graffu.

Disgwylwn i'r Gweinidog ymateb i argymhellion yr adroddiad hwn yn ystod y ddadl ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol.

Amcanion a gweithgareddau'r Banc

Nodwn fod y diffiniad o "awdurdodau cyhoeddus" wedi'i ddiwygio i ymestyn i "unrhyw berson arall sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus". Rydym yn ceisio eglurhad gan y Gweinidog ynghylch a allai'r Banc weithredu fel benthyciwr i awdurdodau cyhoeddus datganoledig (heblaw

awdurdodau lleol), ar sail y diffiniad newydd. Rydym hefyd yn ceisio eglurhad ynghylch a allai hyn effeithio ar drefniadau ariannu'r awdurdodau hynny a sut y gallai effeithio arnynt.

Yn ein hadroddiad cyntaf, roeddem yn croesawu'r gwelliant a dderbyniwyd gan Dŷ'r Arglwyddi i ehangu'r diffiniad o seilwaith i gynnwys 'atebion sy'n seiliedig ar natur'. Rydym yn siomedig na chadwyd y gwelliant yn ystod y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin.

Rôl i Lywodraeth Cymru a'r Senedd

Yn ein hadroddiad cyntaf, fe wnaethom ni fynegi pryder fod y Bil wedi methu ag adlewyrchu cymhwysedd datganoledig, heb unrhyw rôl i Lywodraeth Cymru na'r Senedd yn strwythurau llywodraethu'r Banc. Ar y pryd, dywedodd y Gweinidog ei bod yn ceisio gwelliannau i'r Bil i ddarparu rolau i Lywodraeth Cymru a'r Senedd sy'n cyfateb i rolau eu cyrff cyfatebol yn y DU.

Yn anffodus, ni wnaed unrhyw welliannau o'r fath. Yn lle hynny, dim ond rôl ymgynghorol y mae'r Bil, fel y'i diwygiwyd, yn ei darparu i Weinidogion Cymru o ran arfer pwerau mewn meysydd cymhwysedd datganoledig. Er y gallai hyn gyfrannu rhywfaint at ddiogelu buddiannau Llywodraeth Cymru, nid yw'n gwneud dim i ddiogelu buddiannau'r Senedd. Nid yw'r Bil yn darparu rôl i'r Senedd o ran craffu ar y gwaith arfer pwerau na goruchwylio effeithiolrwydd y Banc i'r graddau y mae'n ymwneud â Chymru. Yn lle hynny, bydd y materion hyn yn cael eu gadael i Senedd y DU.

Er nad yw'r gwelliannau hyn yn agos at fod yn ddigonol, mae'r Gweinidog yn eu hystyried yn "gyfaddawd rhesymol". Nid ydym yn rhannu'r farn hon ac, fel y cyfryw, nid ydym mewn sefyllfa i argymhell bod y Senedd yn rhoi cydsyniad.

Nid yw'r Gweinidog wedi bod yn barod i rannu manylion y gwelliannau yr oedd yn eu ceisio â'r Senedd ar sail bod trafodaethau rhynglywodraethol yn mynd rhagddynt. O ystyried bod Llywodraethau Cymru a'r DU wedi cytuno ar safbwynt sefydlog, byddem yn croesawu manylion y gwelliannau yr oedd y Gweinidog yn eu ceisio, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â rôl y Senedd.

Aelodaeth y Bwrdd

Croesawn y gwelliant i sicrhau bod Bwrdd y Banc yn cynnwys o leiaf un cyfarwyddwr i gynrychioli buddiannau Cymru.

Recommendation 1. Dylai'r Gweinidog ymateb i argymhellion 2 a 3 yr adroddiad hwn yn ystod y ddadl ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol.

Recommendation 2. Dylai'r Gweinidog egluro:

- a allai'r Banc weithredu fel benthyciwr i awdurdodau cyhoeddus datganoledig (heblaw awdurdodau lleol), ar sail y diffiniad newydd o "awdurdodau cyhoeddus", ac
- a allai gallu awdurdodau cyhoeddus datganoledig i fenthyca gan Fanc Seilwaith y DU effeithio ar drefniadau ariannu'r awdurdodau hynny a sut y byddai'n effeithio arnynt.

Recommendation 3. Dylai'r Gweinidog ddarparu manylion y gwelliannau i'r Bil yr oedd yn eu ceisio, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â rôl y Senedd.